**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 08-02 (Cofnodion drafft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **8 Mai 02** |
| **Amser** | **2.00 – 5.30pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd |

| | |
|---|---|
| Allan Moss | EPD |
| Nick Batey | Uned Strategaeth TGCh |
| Richard Clarke | FP |
| Jonathan Price | EcAD |
| Mike Clancy | ICM |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Ruth Marks | Prif Weithredwr, Chwarae Teg |
| Sian Swann | Rheolwr Rhanbarthol, DO Cymru, Chwarae Teg |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gan fod Christine Gwyther yn absennol, cytunwyd y dylai Ron Davies gadeirio'r cyfarfod.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd newydd. Roedd Dafydd Wigley eisoes wedi datgan buddiant fel cyfarwyddwr cwmni bychan.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

1. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad cryno ar lafar, ac fe'i rhoddir ynghlwm wrth ei adroddiad ysgrifenedig. Gyda golwg ar ganolfan alwadau ITV digidol yn Sir Benfro, cadarnhaodd fod y grant RSA gwreiddiol wedi'i roi i Manpower ac nad oedd dim taliadau uniongyrchol wedi'u gwneud i ITV digidol. Dywedodd nad oedd

wedi diystyru pecyn ariannol ar gyfer yr ardal, ond ei bod yn rhy fuan gwneud penderfyniadau o’r natur honno. Roedd Tîm Cymru eisoes yn cydlynu ei adnoddau a'i ymdrechion ac y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r mater oni ellid cael hyd i fusnesau ar gyfer y ganolfan alwadau.

2. Yr oedd yr aelodau o'r farn mai'r staff oedd yr ased mwyaf i unrhyw ddarpar fusnes a ddeuai i lenwi'r bwlch ac yr oeddent yn bryderus bod y Gweinidog yn cymryd camau i sicrhau bod y gweithlu'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Dywedodd y Gweinidog mai un o brif flaenoriaethau'r tîm gweithredu a sefydlwyd ganddo oedd darparu gwybodaeth yn gyson ar gyfer y gweithwyr. Yr oedd yn archwilio contractau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU fel llwybrau posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
3. Gwrthododd y Gweinidog sylwadau bod cau'r ganolfan yn awgrymu bod sector y canolfannau galw'n clafychu a dywedodd mai methiant ITV Digidol oedd yn gyfrifol am gau'r ganolfan yn Sir Benfro. Ychwanegodd fod Cymru'n dal i gamu i mewn i sector gwerth-uwch marchnad y canolfannau galw. Casgliad y Cadeirydd oedd bod angen cyffredinol i edrych yn fwy manwl ac yn strategol ar economïau bregus ac awgrymodd y byddai hyn yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol.
4. Gyda golwg ar ei drafodaethau diweddar gyda Remploy, dywedodd y Gweinidog eu bod yn ystyried mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yn flaenoriaeth allweddol a'i fod bellach yn trafod hyn gydag amrywiaeth eang o sefydliadau. Yr oedd hwn yn faes hefyd y disgwylid i'r Panel Ymchwil Economaidd Ymgynghorol wneud cyfraniad gwerthfawr iddo.
5. Cadarnhaodd y Gweinidog fod cyfarfod wedi'i drefnu rhyngddo ac AMP i drafod eu cynlluniau i symud eu swyddi o Gaerdydd.
6. Yr oedd aelodau'n bryderus iawn mai dim ond un fenyw oedd yn aelod o'r Panel Ymchwil Economaidd Ymgynghorol. Esboniodd y swyddogion y broses dethol gan ddweud mai dim ond nifer fach iawn o fenywod a oedd wedi ymgeisio am swydd, yn enwedig o'r sector academaidd. Cadarnhaodd y Gweinidog fod egwyddorion Nolan wedi'u mabwysiadu a dywedodd y byddai'n ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater hwn wrth wneud penodiadau cyhoeddus yn y dyfodol.
7. Hefyd, gofynnodd yr aelodau i'r Gweinidog ystyried cynnal cyfarfodydd y panel Ymgynghorol yn gyhoeddus. Cytunodd y Gweinidog i ystyried hyn. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r Panel yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog ond y byddai hefyd yn rhannu ei ganfyddiadau gyda'r pwyllgorau pwnc perthnasol.
8. Cyfeiriodd yr aelod at bapur gan y Gweinidog ar yr adolygiad bob pum-mlynedd o WIDAB gan atgyfnerthu ceisiadau blaenorol a gafwyd gan y pwyllgor i nodi'r swyddi a gollwyd yn ogystal â'r rhai a grëwyd ac a ddiogelwyd.
9. Yr oedd y Gweinidog yn rhannu pryder aelod ynghylch colli swyddi yn y sector opto-electronig gan ddweud bod trefniant iddo ymweld â'r fforwm opto-electronig er mwyn mynd i'r afael â materion penodol.
10. Dywedodd y Cadeirydd y câi'r aelodau gyfle i drafod yr Adroddiad Economaidd Chwarterol, EDC 08-02(t7) a'r Bwletin Ystadegol, EDC 08-02(t8) yn y cyfarfod

nesaf ar 22 Mai.

**Eitem 3: Chwarae Teg**

1. Cyflwynodd Ruth Marks ei phapur drwy roi esboniad cryno o gefndir gwaith Chwarae Teg. Dywedodd fod eu pen-blwydd yn 10 oed wedi rhoi cyfle iddynt ailystyried y gwaith ymchwil gwreiddiol a oedd wedi arwain at ei sefydlu. Er bod y gwaith ymchwil yn dangos rhywfaint o newidiadau cadarnhaol, roedd yn dal i fod yn wir nad oedd menywod yn dal i deimlo eu bod yn cael eu trin yn gydradd yn y gweithle.
2. Yn y drafodaeth gyffredinol, gwnaethpwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Tybiwyd ei bod yn bwysig mynd i'r afael â shifftiau dwbl, a oedd yn dangos bod llawer o fenywod yn gwneud gwaith gofalwyr, boed hynny'n ofalu am blant neu am berthnasau sy'n dibynnu arnynt. Awgrymwyd y gellid defnyddio addysg ym more oes er mwyn sicrhau mwy o gydraddoldeb. Dywedodd Ruth Marks y ceid llawer o gynlluniau sy'n ymwneud â'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bod cyflogwyr a oedd yn awyddus i gael eu gweld yn 'gyflogwyr o ddewis' yn gweld hyblygrwydd yn bwysig iawn yn y cyswllt hwn.

- Cydnabyddid bod agweddau cyflogwyr tuag at drefniadau gweithio hyblyg yn amrywio'n fawr a dywedodd Ruth Marks fod Awdurdod Datblygu Cymru wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau bach a chanolig ar brosiect cydraddoldeb dros sawl blwyddyn a oedd wedi tynnu sylw dros 600 o gwmnïau at arferion da.

- Nodwyd ei bod er budd y cyhoedd i gyflogwyr y sector cyhoeddus, megis yr heddluoedd, i sicrhau bod eu cofnodion ynghylch trafodion cwyno a disgyblu ar gael. Dywedodd Chwarae Teg eu bod yn gweithio gyda sawl heddlu yng Nghymru ar gynlluniau cyfle cyfartal a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

- Dywedodd Chwarae Teg, wrth ystyried sut roedd pobl yn gweld y trefniadau gweithio hyblyg sydd ar gael, ei bod yn bwysig cydnabod nad yw cyflogwyr a gweithwyr bob amser yn defnyddio'r un math o iaith Yr oeddent hefyd yn trafod gyda TUC Cymru i bwy y cynigid hyblygrwydd gan nad oedd rhaglenni bob tro'n cefnogi cyfle cyfartal.

- Weithiau, bydd cyflogwyr o'r farn bod gormod o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth gymryd camau i sicrhau cydraddoldeb ond yn aml iawn, ymateb greddfol oedd hyn, ac unwaith iddynt lwyr ddeall y goblygiadau, yr oeddent yn aml yn fwy cadarnhaol eu hagwedd.

- Cytunwyd bod angen agwedd holistig er mwyn mynd i'r afael â chostau gofalu am blant. Ar hyn o bryd, yr oedd Awdurdod Datblygu Cymru'n pennu hyd a lled astudiaeth i ganfod anghenion a darpariaethau gofal plant cyfredol a rhagamcanion ar gyfer y

dyfodol. Er bod modd defnyddio llawer o gronfeydd strwythurol Ewrop er mwyn cynorthwyo gyda phrosiectau gofal plant, nid oedd llawer o Gwmnïau Bach a Chanolig wedi manteisio arnynt. Credid bod swyddogaeth bwysig i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i hyrwyddo ac annog defnyddio cronfeydd strwythurol ar gyfer darparu gofal plant.

1. Wrth grynhoi, dywedodd y Gweinidog fod gwaith ymchwil Chwarae Teg yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig gyda golwg ar anweithgarwch economaidd, ac y byddai'n bwydo hynny i'r Adolygiad Polisi Strategol. Hefyd, nododd bryderon yr aelodau ynghylch penodiadau cyhoeddus gan ddweud bod y Gweinidog dros Gyllid yn edrych ar ddulliau o annog rhagor o fenywod i ymgeisio.

**Eitem 4: Amrywiadau Cyllidol**

1. Ym mhapur y Gweinidog, cafwyd adroddiad arall ar y cynnydd a wnaethpwyd gyda golwg ar ddatblygu amrywiadau cyllidol a chymhorthion gweithredu. Holodd yr aelodau ynghylch y rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen gyda rhai o argymhellion adroddiad PWC a thynnodd swyddogion sylw at yr esboniad a roddwyd ym mhapur mis Ionawr i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Yn benodol, nodwyd y materion y barnwyd y byddai'n anodd cael cytundeb iddynt gan y Trysorlys neu'r Comisiwn Ewropeaidd (neu'r ddau). Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd bryder bod Ewrop wedi cytuno ar bolisïau i ysgogi twf economaidd yn ardaloedd Amcan 1, ac eto yr oedd polisïau eraill yn Ewrop ac yn y Trysorlys yn gweithio yn erbyn hyn. Yr oedd yn brifo'n arbennig gan fod rhannau eraill o'r UE yn meddu ar y pwerau yr oeddem ni'n eu ceisio.
2. Mynegodd aelodau bryder ynghylch yr amser a gymerwyd i ddatblygu'r cymhorthion hyn. Cyfeiriwyd at drafodaethau blaenorol, oddeutu 2½ flynedd yn ôl, pan nododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer yr ardaloedd mwyaf anghenus yng Nghymru. Y blaenoriaethau hynny oedd gostwng trethi busnes, gostwng cyfraniadau YG a chredydau treth ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu. Ers hynny, ychydig o gynnydd a wnaethpwyd gydag unrhyw un o'r rhain. Dywedodd y Gweinidog fod y rhain yn feysydd arbennig o ddyrys am y rhesymau a nodwyd eisoes a bod cynnydd da wedi'i wneud mewn meysydd eraill.
3. Cyfeiriwyd at gynigion Cymru'n Ennill i fapio "lle mae gweithgarwch cyfredol i hyrwyddo arloesi yn addas a lle nad yw'n addas" (para 14), a mynegwyd pryder ei bod wedi cymryd cyhyd i wneud y gwaith rhagarweiniol hwn hyd yn oed. Er bod Aelodau'n derbyn bod y Gweinidog yn gymharol newydd i'w swydd, teimlent y dylai fod mwy o ddilyniant o fewn Llywodraeth y Cynulliad.
4. Mynegwyd pryder bod consesiynau ar dreth stamp ar gael ar gyfer adeiladau 'o safon uchel' mewn mannau megis Bae Caerdydd ac eto nad oeddent ar gael mewn rhannau mwy anghenus o Gymru. Cydnabyddai'r aelodau fod datblygu Bae Caerdydd yn flaenoriaeth hefyd ond y gallai anghysonderau godi o'r ffaith fod angen diffinio ardaloedd cymwys ar ffurf wardiau etholiadol. Dywedodd y

Gweinidog, er gwaetha'r anawsterau, fod rhannau sylweddol o Gymru yn elwa yn sgîl llacio rheolau'r dreth stamp. Awgrymwyd, gan fod pobl yn aml yn gweithio mewn ardal wahanol i'r ardal lle maent yn byw, y byddai'n fwy priodol llacio rheolau'r dreth stamp ar gyfer pob eiddo masnachol yn ardal Amcan 1. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried hyn.

**Eitem 5: TG a Chysylltedd â'r Band Llydan**

1. Cyflwynodd Phil Williams ei bapur gan ddadansoddi'n gryno'r gwahanol amrediadau o allu band llydan. Dywedodd, er y dylem yn ddelfrydol anelu at gael trefn symetrig, mai'r targedau realistig ar gyfer Cymru fyddai sicrhau ASDL ar gyfer 90% o'r boblogaeth erbyn 2005 ond na ddylai hyn ein rhwystro rhag anelu at VDSL erbyn 2010. Ystyriodd yr amrywiaeth o dechnolegau sydd ar gael a dywedodd mai'r dewis gorau ganddo fyddai darparu ffibr optig ar gyfer, o leiaf, bob ysgol yng Nghymru, ac wedyn y gellid gosod cabinetau i ddarparu band llydan ar gyfer dalgylch o fewn 1 neu 2km. Dyfynnodd enghraifft o'r cysylltedd yn Sweden a'u nod i ddarparu cysylltedd VDSL ar gyfer 98% o'u trefi a'u pentrefi erbyn 2004.
2. Diolchodd y Gweinidog i Phil Williams am ei bapur a'r esboniadau clir ar y gwahanol dechnolegau. Cytunodd mai optegau ffibr fyddai'r dewis gorau ond pwysleisiodd y byddai'r costau sydd ynghlwm wrth hynny'n sylweddol. Dywedodd ei bod yn bwysig ar hyn o bryd arddel safbwynt technolegol niwtral ac edrych ar amrywiaeth o gyfryngau cyflwyno, yn anad dim am fod y dechnoleg yn debygol o symud ar gyflymder sy'n cynyddu o hyd. Dywedodd ei fod yn gobeithio gwneud cyhoeddiad cyn bo hir, gan adeiladu ar sail y rhwydwaith dysgu gydol oes, a fyddai'n golygu bod Cymru ar y blaen i'r DU. Ychwanegodd nad mater o seilwaith yn unig oedd hyn yng Nghymru. Er y gallai oddeutu 80% o gwmnïau Caerdydd gysylltu ag ADSL, dim ond 1% oedd wedi manteisio ar hynny. Holodd yr aelodau beth y gellid ei wneud i ysgogi'r galw.
3. Roedd rhai aelodau'n bryderus nad oedd digon o fuddsoddi'n cael ei wneud mewn cysylltedd band llydan a bod angen mwy o ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd angen band llydan ar bob cwmni i fasnachu'n effeithiol ac er mai cysylltedd symetrig fyddai'n ddelfrydol, nid oedd angen i'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron gartref anfon yn gyflym, dim ond derbyn.
4. Soniodd yr aelodau wrth y Gweinidog am y problemau a gafodd asiantaethau cyhoeddus yn Aberystwyth yn ddiweddar gyda band llydan di-wifr gan ddweud bod hyn yn dangos bod angen darpariaeth loeren mewn rhai ardaloedd. Cytunodd y Gweinidog, er y gellid defnyddio'r rhwydwaith opteg ffibr presennol fel fframwaith y byddai angen defnyddio amrediad o wahanol dechnolegau. Ailadroddodd y ffaith fod band llydan yn dal i fod yn dechnoleg weddol newydd a bod y maes hwn yn newid yn gyflym o hyd.
5. Wrth grynhoi, dywedodd Phil Williams ei fod yn sylweddoli bod gwaith ar y gweill i

hyfforddi cwmnïau i ddefnyddio arian amcan 1, i ddefnyddio e-fasnach yn fwy effeithiol ond bod angen i'r seilwaith fod yn ei le i ymdopi gyda'r cynnydd yn y galw.

6. Diolchodd y Cadeirydd i Phil Williams am ei bapur a chytunodd y Pwyllgor fod profiad Sweden yn un dilys ac y byddai'n briodol ymweld â'r wlad i astudio beth y gellid ei gyflawni a sut orau i wneud hynny.

**Eitem 6: Adolygiad Bob Pum Mlynedd Bwrdd Croeso Cymru – Materion Strategol**

1. Wrth gyflwyno'r Papur, amlinellodd y swyddogion y broses Adolygu Bob Pum Mlynedd gan ddweud mai drafft ar gyfer ymgynghori oedd yr Adroddiad gerbron y Pwyllgor. Yr oeddent yn awyddus i glywed sylwadau'r Aelodau ar yr Adroddiad a'r cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad.
2. Cyfeiriodd yr aelodau at y ffigyrau ar gyfer nifer y bobl a gyflogid ym maes twristiaeth gan nodi, oherwydd y nifer fawr o bobl hunan-gyflogedig yn y sector hwn, nad oedd y ffigyrau hyn yn ddibynadwy iawn. Yn benodol, yr oedd yn bwysig sicrhau bod ffigyrau cyson yn cael eu defnyddio drwy gydol yr Adroddiad ac wrth gymharu gydag Adroddiadau eraill. Cytunodd Jonathan Price nad oedd ffigyrau manwl ar gael ond cytunodd i sicrhau cysondeb lle bynnag y bo modd.
3. Nododd yr aelodau fod yr Adroddiad yn cyfeirio at nifer y swyddi a ddiogelwyd ac a grëwyd a bod y categorïau hyn wedi'u cyfuno mewn mannau yn yr adroddiad. Y farn unwaith eto oedd y dylai'r rhain gael eu dangos fel categorïau ar wahân bob tro.
4. Cyfeiriwyd at y tensiwn sy'n bodoli yn y sector twristiaeth rhwng bod angen denu pobl o'r tu allan i Gymru a'r effaith y gall hyn ei chael ar gymunedau lleol a'r iaith Gymraeg. Teimlwyd bod angen i'r Adroddiad gydnabod y tensiwn hwn ac awgrymwyd y dylai gynnwys cyfeiriad tebyg i: "Dylai'r Bwrdd Croeso ystyried y camau y dylent hwy neu Lywodraeth Cymru eu cymryd ar frys i leihau'r tensiynau sy'n tyfu rhwng y diwydiant twristiaeth â'r boblogaeth frodorol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yng Nghymru." Dywedodd Jonathan Price nad oedd hyn wedi bod yn rhan o'r ymgynghori ond ei fod yn fodlon cynnwys brawddeg o'r fath. Gofynnodd aelodau am y cynnig i adolygu grantiau Adran 4 a dywedodd Jonathan Price fod hyn yn deillio o'i ddadansoddiad o'r costau a'r buddiannau sydd ynghlwm wrth y gefnogaeth hon. Yr oedd ei argymhelliad yn gyson ag argymhelliad y Gr^wp Gorchwyl a Gorffen.
5. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch pwysigrwydd asesu swyddogaethau cymharol y BTA a'r Bwrdd Croeso o ran marchnata Cymru dramor. Nodwyd ei bod yn anodd iawn asesu hyn yn gwbl gywir, a hynny'n rhannol oherwydd bod nifer sylweddol o ymwelwyr o'r tu allan yn ymweld â Chymru a Lloegr yn ystod un ymweliad.
6. Nodwyd bod hyfforddiant yn nodwedd bwysig wrth ddatblygu'r diwydiant twristiaeth ac awgrymwyd y dylid cyfeirio at hyn yn yr Adroddiad. Dywedodd Jonathan Price nad swyddogaeth Bwrdd Croeso Cymru oedd darparu hyfforddiant ond cytunodd bod ganddo swyddogaeth o ran nodi anghenion

hyfforddi. Dywedodd y byddai'n cyfeirio at hyn yn yr Adroddiad.

7. Wrth grynhoi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am adael iddynt weld y drafft gan nodi'r gwaith mawr a oedd wedi'i wneud. Gobeithiai y byddai'r Adolygiad yn ystyried barn y Pwyllgor yn llawn ac edrychai ymlaen at weld Adroddiadau camau nesaf yr adolygiad maes o law.

**Eitem 7: Blaenraglen Waith a'r Adroddiad Blynyddol**

1. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim sylwadau wedi'u derbyn gan Aelodau ers dosbarthu'r adroddiadau hyn. Nid oedd gan yr aelodau sylwadau pellach yn y cyfarfod a chytunwyd y dylid cymeradwyo'r drafft.

**Eitem 8: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

8.1 Cytunwyd bod Cofnodion 24 Ebrill yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**